# Adroddad Ang-nghronolegol – Bywyd y Pwll 1

Yn ystod eich ymweliad â'n Canolfan Ddarganfod, roeddech chi'n Ecolegwyr Dŵr Cymru yn cynnal arolygon o'r pwll ac yn gofalu am y cynefin. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus nad yw ein gwaith yn difrodi cynefinoedd. Pa greaduriaid welsoch chi yn y pwll?

Cyflwyniad – Atebwch y cwestiynau hyn gyda phartner. Defnyddiwch yr atebion i ysgrifennu'ch cyflwyniad. Ai dŵr hallt ynteu ddŵr croyw sydd yn y pwll?
Pa bedwar peth mae ar anifeiliaid eu hangen er mwyn byw?

B _ _ _ ,     C _ _ _ _ _ _ ,     O _ _ _ _ _ _ ,     D _ _ _

Ym mha bedwar lle ddewch chi o hyd i anifeiliaid wrth chwilio am archwilio pwll? (ar, o dan, ger)

Dewiswch ddisgrifiad i gyfateb i'r gwahanol Fwystfilod Bach.

Defnyddiwch yr wybodaeth i ysgrifennu am yr anifeiliaid yn eich adroddiad. Ychwanegwch ffeithiau diddorol eraill sydd gennych.

**Madfall Ddŵr**



Rwy'n tueddu i nofio o gwmpas yn gyflym mewn cylchoedd. Mae rhaniad yn fy llygaid fel y gallaf weld uwchlaw'r dŵr ac o dan y dŵr. Mae gen i ddau bâr o goesau yn y cefn sydd fel padlau byr, fflat. Rwy'n cario swigen aer ar fy mhen ôl ac rwy'n anadlu'r aer hwnnw pan fyddaf o dan y dŵr. Rwy'n gallu aros o dan y dŵr am amser hir.

**Chwyrligwgan**



Mae gen i lygaid cyfansawdd. Rwy'n gallu gweld o fy nghwmpas i gyd i wylio am elynion. Rwy wedi datblygu'n llwyr pan fyddaf yn deor o'r ŵy. Os gwelwch chi fi, mae'n golygu bod y pwll neu'r afon mewn cyflwr iach! Dw i ddim yn hoffi dŵr wedi'i lygru. Rwy'n nofio wyneb i waered.

**Lleuen ddŵr**



Amffibiad ydw i. Rwy'n dodwy wyau. Gallaf dyfu hyd at 10cm o hyd. Mae fy mreichiau, fy nghoesau a hyd yn oed fy llygaid yn gallu tyfu yn ôl os bydd gelyn yn gwneud niwed i mi!

**Berdysyn**



Rwy'n edrych fel mochyn coed/gwrachen ludw ond rwy'n byw yn y dŵr. Rwy'n hoffi cwmni ffrind. (Fe welwch bâr ohonom gyda'n gilydd yn aml.) Rwy'n bwrw fy nghroen (mae'n dod i ffwrdd) er mwyn i mi dyfu. Dw i ddim yn gallu nofio'n dda ond rwy'n cropian trwy'r chwyn a'r llaid.

Casgliad – Ysgrifennwch am eich hoff anifail o blith y rhai a welsoch a dweud pam. Anogwch y bobl sy'n darllen eich adroddiad i fynd at bwll yn eu hardal i chwilio am fywyd.